# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Plasgwyn**

**CARTREF NYRSIO PLASGWYN**
**PENTREFELIN**
**CRICIETH**
**LL52 0PT**

## Dyddiad Cyhoeddi

**4 Ebrill 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Plasgwyn wedi'i leoli mewn pentref bach wrth ymyl Cricieth a glan môr. Cariad Care Homes Ltd sy'n berchen ar y cartref; y darparwr yw'r unigolyn cyfrifol hefyd. Mae rheolwr y cartref wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae'n gyfrifol am redeg y cartref o ddydd i ddydd. Mae'r cartref wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal personol a/neu nyrsio ar gyfer hyd at 38 o bobl 40 oed neu drosodd. Roedd y cartref yn llawn ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae Plasgwyn yn darparu amgylchedd cartrefol a gofalgar i'r bobl sy'n byw yno. Mae'r cartref yn lân, mewn cyflwr da, ac mae wedi'i addurno mewn ffordd fodern a golau. Mae'r darparwyr yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth yn barhaus ac mae wedi cael adborth da yn sgil ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'r cartref yn rhan o'r gymuned a'r diwylliant lleol ac mae'n darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae'r cartref wedi'i gofrestru'n llwyddiannus o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### 2. Gwelliannau

Mae'r darparwr am sicrhau dyfodol y gwasanaeth cyhyd â phosibl ac mae bob amser yn edrych ar recriwtio, hyfforddi, sefydlu a chefnogi ei staff. Sefydlwyd y staff yn unol â fframweithiau Gofal Cymdeithasol Cymru, ac mae llyfrau sefydlu staff newydd wedi'u marcio gan arholwr allanol er mwyn sicrhau safbwynt niwtral a chytbwys. Cyflwynwyd cofnodion siartiau rowndiau newydd, lle mae'r staff yn nodi'r dyddiad, yr amser, a'r math o ofal a ddarparwyd, yn ogystal â gwybodaeth monitro iechyd fel faint mae unigolyn yn ei fwyta a'i yfed bob dydd, ac unrhyw gamau a gymerwyd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adran adborth awgrymedig mewn adroddiadau ymgynghori.
- Asesiad risg ar gyfer storio menig rwber.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Caiff y bobl eu trin mewn ffordd gynnes a pharchus, a chaiff eu dewisiadau diwylliannol ac o ran iaith gyntaf eu cydnabod. Mae'r bobl yn cael eu hannog i fod mor weithgar â phosibl. Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl eu bod yn cael digon o faeth a'u bod wedi'u hydradu. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran llesiant.

### Ein canfyddiadau

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Clywsom y staff yn siarad â'r bobl mewn ffordd gynnes a chyfeillgar, a rhoddwyd dewis iddynt o ran ble i eistedd a beth i'w wneud yn ystod y dydd. Gallai'r staff sgwrsio yn Gymraeg â'r bobl fel oedd yn briodol. Roedd dewis iaith y bobl hefyd wedi'i nodi yn eu cynlluniau gofal personol. Dywedodd un perthynas wrthym: "*Da iawn yma. Wedi setlo yn dda. Mae nhw'n dda iawn am adael i ni wybod os di hi ddim yn dda.*" Gall y bobl fod yn hyderus y cânt ddewis personol.

Gall y bobl fod mor weithgar ag y dewisant fod. Gwelsom galendr gweithgareddau, ac roedd hysbysfwrdd yn y dderbynfa yn nodi digwyddiadau'r wythnos. Roedd y bobl yn cael gweld sut i wneud sebon ar ddiwrnod ein harolygiad, a gwnaethant ddweud eu bod yn ei fwynhau. Roedd cyfle iddynt brynu sebon hefyd os oeddent am wneud hynny. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym am fws mini newydd oedd wedi cael ei brynu ar gyfer y cartref. Gallai teuluoedd fenthyg y bws, oedd â digon o le ar gyfer cadair olwyn, er mwyn mynd â'u perthynas allan am y dydd. Dim ond ail-lenwi'r tanc oedd angen ei wneud cyn ei ddychwelyd i'r cartref. Roedd cydlynydd gweithgareddau yn gweithio yn y cartref dridiau'r wythnos. Soniodd y rheolwr am berson gweithgareddau arall oedd wedi'i benodi ar gyfer y tridiau dilynol, gan gynnig darpariaeth ychwanegol i'r bobl yn ystod yr wythnos. Anogir y bobl i ymddiddori mewn gwahanol bethau yn y cartref.

Mae lefelau maeth a hydradu'r bobl yn ddigonol i gynnal eu hiechyd. Gwelsom fod bwydlen dreigl pedair wythnos ar waith, lle gallai'r bobl ddewis gwahanol frecwast, pryd llawn a phwdin amser cinio, te prynhawn, swper, a byrbryd gyda'r nos, a hyd yn oed gael byrbryd yn hwyrach os oedd ei angen. O edrych ar gynlluniau personol y bobl, gwelsom fod eu pwysau yn cael ei nodi bob mis, a gwnaed atgyfeiriadau at ddietegydd mewn modd amserol os oedd angen. Gellid darparu ar gyfer dietau arbennig, a nodwyd hynny yng nghynlluniau personol y bobl. Gwelwyd bod taflenni rowndiau darparu gofal yn cael eu cwblhau bob dydd, lle cawsai'r hyn a fwytawyd ac a yfwyd gan y bobl ei nodi, ynghyd â'r camau a gymerwyd os nodwyd unrhyw ddiffygion. Dywedodd y bobl wrthym fod y bwyd o ansawdd da iawn. Nododd un perthynas, *"Mae'r bwyd yn ardderchog."* Gwelsom, o ymgynghoriad hanner blwyddyn yr unigolyn cyfrifol â defnyddwyr y gwasanaeth, eu bod yn gwbl fodlon ar y bwyd. Mae'r bobl yn fodlon ar ansawdd y bwyd a gynigir.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Mae'r bobl yn derbyn gofal priodol mewn modd amserol. Mae'r bobl wrth wraidd eu cynllun gofal personol. Diogelir rhyddid y bobl yn y cartref. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran gofal a datblygu.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn derbyn gofal priodol. Dangosodd cofnodion gofal personol y bobl fod eu hanghenion yn cael eu hasesu'n rheolaidd, gan ddefnyddio adnoddau a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer materion fel maeth, symud a thrin a thrafod a'r risg o gwympo. Roedd risgiau cyffredin yn gysylltiedig â gofal fel briwiau pwyso yn cael eu hasesu a'u hadolygu bob mis. Gwelsom atgyfeiriadau amserol a phriodol at weithwyr gofal iechyd proffesiynol arbenigol os oedd angen cyngor ychwanegol ar bobl, er enghraifft gyda diet neu anghenion symud a thrin a thrafod. Roedd cyngor gan arbenigwyr yn cael ei gofnodi'n ofalus a'i gynnwys yng nghynlluniau gofal y bobl. Gwelsom fod person â briw ar ei droed wedi cael ei asesu gan arbenigwr hyfywedd meinwe, a chafwyd cyfarwyddiadau clir ar sut i'w rwymo yng nghynllun gofal y person hwn, gyda chynnydd wedi'i nodi mewn ffeil rhwymau. Nodwyd bod sylwadau cadarnhaol am ofal yn yr arolwg ymgynghori hanner blwyddyn. Cafwyd ymatebion cadarnhaol gan deuluoedd a'r bobl sy'n byw yn y cartref, er enghraifft "*Rydym fel teulu yn ddiolchgar am y gofal a dderbyniwyd yn ystod yr amser ym Mhlasgwyn".* Caiff iechyd y bobl ei fonitro yn y cartref ac mae'r gwasanaeth yn cymryd camau rhagweithiol o ran eu hanghenion.

Trefnir y gofal yn ôl anghenion y bobl. Gwelsom fod cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am hoff bethau a chas bethau'r bobl, yn ogystal â'u hanes. Roedd y cynlluniau gofal yn enwi'r person dan sylw, materion o ran ei ofal, ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r staff ynghylch yr hyn i'w wneud. Cofnodwyd dewis iaith y bobl, a'r hyn roeddent yn ei ddymuno o ran gofal diwedd oes, yn eu ffeiliau gofal. Dywedodd y bobl wrthym fod eu hanghenion yn cael eu nodi a'u diwallu, a nododd un yn benodol; "*Staff are kind here, we are well looked after."* Mae'r bobl wrth wraidd eu cynllun gofal.

Diogelir rhyddid y bobl. Clywsom y staff yn rhoi dewis i'r bobl o ran yr hyn y gallent ei wneud yn ystod y dydd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael dewis, ac y gallent godi a mynd i'r gwely pryd bynnag yr hoffent. Gwelsom, lle nad oedd gan bobl alluedd i adael y cartref heb gymorth, fod atgyfeiriad amserol wedi'i wneud at aseswyr Amddifadu o Ryddid (DoLS). Hefyd, gwnaed ailatgyfeiriadau priodol er mwyn sicrhau bod rhyddid unigolyn yn cael ei adolygu'n gyson. Gallai'r rheini heb aelod o'r teulu a enwebwyd neu atwrnai i eirioli drostynt ddefnyddio eiriolwyr y Ddeddf Galluedd Meddyliol Annibynnol drwy'r adran gwasanaethau cymdeithasol. Caiff hawliau'r bobl ifanc eu parchu gan y gwasanaeth.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r darparwr yn ymwybodol o faterion diogelwch. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran yr amgylchedd.

### Ein canfyddiadau

Mae'r cartref yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Roedd y cartref yn lân ac yn daclus, gyda decor modern a ffres. Gallai'r bobl eistedd y tu allan mewn tywydd braf, ac roedd ramp ar gael i'r ardd i bobl a oedd yn ei chael hi'n anodd symud. Gallai'r bobl bersonoli eu hystafelloedd â'u heiddo eu hunain. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi eu hystafelloedd, a'u bod yn *“nice and warm.”* Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym am raglen dreigl o ailaddurno'r cartref, ac roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt i greu ystafelloedd gwlyb newydd gan fod yn well gan lawer o'r bobl gael cawod yn hytrach na bath. Roedd y gegin wedi cael sgôr hylendid o 5 gan asiantaeth iechyd yr amgylchedd, sef y sgôr uchaf posibl. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion.

Mae'r gwasanaeth yn ystyriol o ddiogelwch y bobl. Gofynnwyd i ymwelwyr lofnodi i mewn ac allan o'r cartref am resymau diogelwch a gwagio mewn argyfwng. Gofynnwyd i ni ddangos prawf adnabod cyn mynd i mewn i'r cartref. Roedd gan y bobl Gynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) yn nodi eu hanghenion o ran symudedd pe bai angen iddynt adael mewn argyfwng. Profwyd y larymau tân a chynhaliwyd gwiriadau diogelwch bob wythnos. Roedd y cyfarpar oedd yn cael ei ddefnyddio i ofalu am y bobl, fel teclynnau codi, yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Roedd gwybodaeth bersonol y bobl a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel mewn swyddfeydd a chypyrddau dan glo. Gwnaethom argymell y dylid cynnal asesiad risg o'r ffordd roedd menig yn cael eu storio. Gwelsom eu bod yn cael eu cadw o fewn cyrraedd, yn yr agored, mewn coridorau ac ystafelloedd. Gallai hyn fod yn beryglus petai rhywun heb alluedd yn ceisio eu bwyta. Mae'r darparwyr yn ymrwymedig i liniaru risgiau lle bo modd er mwyn sicrhau bod y bobl yn derbyn gofal diogel.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r bobl yn derbyn gofal gan staff sy'n cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda. Mae arferion cyflogaeth yn gadarn. Mae'r darparwyr yn ymrwymedig i wella drwy fesur ansawdd y gofal a ddarperir yn barhaus. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran arwain a rheoli.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n ddigonol. Dangosodd y cofnodion hyfforddiant fod rhaglen dreigl gadarn ar waith ar gyfer hyfforddiant gorfodol a diddordeb arbennig. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael digon o hyfforddiant ar gyfer eu rôl a'u bod yn cael cefnogaeth i ennill cymwysterau uwch. Roedd cofnodion goruchwylio'r staff yn gyfredol. Roedd nyrsys yn goruchwylio nyrsys yn unol â gofynion y corff llywodraethu. Dywedodd y staff wrthym fod gwaith tîm a chyfathrebu â'r rheolwyr yn dda yn y cartref. Mae'r bobl yn cael budd o dderbyn gofal gan staff sy'n meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am eu rôl, ac yn cael y gefnogaeth ddiweddaraf hefyd.

Mae arferion recriwtio yn gadarn. Gwelsom fod ffeiliau'r staff yn drefnus ac yn cynnwys y gwiriadau gofynnol er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod cyfnod sefydlu da ar gyfer staff newydd er mwyn sicrhau eu bod yn ymgyfarwyddo â'r bobl, a materion iechyd a diogelwch. Defnyddiwyd arholwr allanol i farcio llyfrau gwaith sefydlu (fframwaith sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru), er mwyn sicrhau tegwch a chydbwysedd. Mae'r cartref yn llwyddo i recriwtio cyfran fawr o weithwyr lleol sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Gall y bobl fod yn hyderus bod arferion recriwtio staff da ar waith.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei brofi i sicrhau ansawdd y gofal. Roedd yr unigolyn cyfrifol wedi cynnal arolwg ymgynghori hanner blwyddyn yn unol â rheoliadau RISCA, ac mae'n ymweld â'r gwasanaeth bob dydd. Mae hefyd yn gwybod y bydd angen adroddiad blynyddol. Gwnaethom argymell y dylid ychwanegu gofod ar gyfer sylwadau yn yr adroddiad ar ganlyniadau'r arolwg er mwyn dangos unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i sylwadau defnyddwyr gwasanaeth neu sylwadau pobl sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth. Cynhaliwyd sawl archwiliad er mwyn sicrhau ansawdd y gofal fel adolygiadau o gynlluniau gofal, rhoi meddyginiaethau a rheoli heintiau, a rhannwyd y canlyniadau â'r staff mewn cyfarfodydd er mwyn argymell unrhyw welliannau angenrheidiol a'u llongyfarch ar feysydd o arfer da. Gall y bobl fod yn sicr y darperir gwasanaeth sy'n gwella'n barhaus ac yn sicrhau safonau da.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn y canlynol er mwyn annog canlyniadau da i'r bobl:

- Dylid cynnwys adran adborth yn yr adroddiadau ymgynghori ar gyfer barn defnyddwyr gwasanaeth (a gynhelir bob chwe mis yn unol â'r rheoliadau). Byddai hyn yn dangos ymrwymiad y gwasanaeth i wrando ar farn y bobl, a pha gamau a gymerwyd (os yw'n briodol).
- Mae angen i ni fod yn fodlon bod menig rwber yn cael eu cadw'n ddiogel, a dylid cwblhau asesiad risg.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn ymweliad cofrestru ôl RISCA llawn, lle na roddwyd rhybudd ymlaen llaw, a gynhaliwyd yn unol â'n hamserlen. Gwnaethom ymweld â'r gwasanaeth ar 18 Chwefror 2019.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol, y rheolwr, y nyrs, dau weithiwr gofal, perthynas a dau o'r bobl oedd yn byw yn y cartref.

- Defnyddiwyd y Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI 2). Mae adnodd SOFI yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl na allant gyfathrebu â ni.

- Gwnaethom archwilio'r cartref a'r cyfleusterau, gan gynnwys hap-ddetholiad o ystafelloedd y bobl.

- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion a gedwir gan y gwasanaeth cofrestredig, gan ganolbwyntio ar; ffeiliau gofal pedwar person, ffeiliau pedwar aelod o'r staff, rotâu staff, cofnodion hyfforddi a goruchwylio, adroddiadau'r unigolyn cyfrifol, archwiliadau, gweithgareddau, bwydlenni, siartiau rowndiau, gwiriadau tân a datganiad o ddiben.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr Gwasanaeth** | **Cariad Care Homes Ltd** |
| **Rheolwr** | |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **38** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **14 Mehefin 2018.** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **18 Chwefror 2019.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |